**Ymateb Urdd Gobaith Cymru i'r ymchwiliad o'r achosion o COVID-19 ac effaith y firws ar ddiwylliant, y diwydiannu creadigol, treftadaeth, cyfathrebu a chwaraeon**

Mae'r Urdd yn fudiad Ieuenctid Gwirfoddol Cenedlaethol a sefydlwyd yn 1922 gyda 60,000 o aelodau a gweithlu o 320 *(* hwn yn cynnwys nifer o weithwyr tymhorol ac/neu achlysurol).* Heblaw'r gwasanaeth addysg, yr Urdd yw un o gyflogwyr cenedlaethol 3ydd sector fwya' Cymru, a'r fwyaf yng Ngheredigion a Gwynedd. Eleni, roedd disgwyl i'r Urdd ddod â gwerth economaidd o dros £31.5 i Gymru (*gweler adroddiad Arad Research: Asesiad Economaidd yr Urdd 30-10-2018*). Mae'r Urdd yn darparu cyfleoedd i blant a phobl ifanc fwynhau profiadau chwaraeon, diwylliannol, cymunedol a phreswyl drwy gyfrwng y Gymraeg, fydd yn eu galluogi i wneud cyfraniad cadarnhaol i'w cymunedau ac i gymdeithas yn gyffredinol.

Amlinelliad o'r gweithgareddau:-

- 4 gwersyll preswyl (Bala, Llangrannog, Gogledd Penfro a Chaerdydd) gyda dros 49,000 o ymweliadau blynyddol;
- Darpariaeth chwaraeon cymunedol trwy 339 o glybiau i 11,065 o blant a phobl ifanc;
- Cystadlaethau chwaraeon ar bob lefel yn rhanbarthol a chenedlaethol i 44,503 o blant a phobl ifanc;
- Un o wyliau celfyddydol fwyaf Ewrop, Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd, 65,000 o gystadleuwyr a 100,000 o ymweliadau;
- Rhwydwaith o glybiau, adrannau ac aelwydydd i blant a phobl ifanc ar draws Cymru;
- Gwasanaeth Awyr Agored - gan gynnwys darpariaeth Gwobr Dug Caeredin drwy gyfrwng y Gymraeg;
- Cynllun prentisiaethau cyfrwng Cymraeg i dros 100 o ddysgwyr yn flynyddol;
- Rhannu Neges Heddwch ac Ewyllys da Ieuenctid Cymru i 15 miliwn o bobl mewn 50 o wledydd ar draws y byd;
- Strategaeth Ryngwladol newydd fydd yn hyrwyddo ein hiaith, gwlad a diwylliant drwy ein pobl ifanc i Genedlaethau'r dyfodol ar draws y byd:
- Cyhoeddi 3 cylchgrawn yn y Gymraeg i 6,000 o ddarllenwyr..

**Effaith uniongyrchol COVID-19 ar yr Urdd o ganlyniad i COVID-19, y cyfyngiadau ar deithio, 'lockdown' ac ymbellhau cymdeithasol.**

Mae COVID-19 wedi atal holl weithgareddau a phrosiectau sydd yn cynorthwyo plant a phobl ifanc i gynyddu eu hyder yn y defnydd o'r Gymraeg. Rydym wedi llwyddo i drosglwyddo elfennau o'n darpariaeth i lwyfannau cyfryngau cymdeithasol a digidol.

Rydym yn bryderus am effaith COVID-19 ar les a datblygiad personol a chymdeithasol plant a phobl ifanc. Mae ein staff yn awyddus, pan fydd yn ddiogel i wneud hynny, i ddarparu cefnogaeth wyneb i wyneb a chyfnodau preswyl yn unol â chyngor Llywodraeth Cymru ac Iechyd Cyhoeddus Cymru.

Mae COVID-19 wedi bod yn ergyd mawr i fodel busnes llwyddiannus a phroffidiol yr Urdd. Rydym wedi profi gostyngiad incwm o 99% ar draws ein gwersylloedd ac

rydym yn rhagweld bydd hyn yn parhau tan o leiaf Medi 2021. Yn ogystal mae gohirio'r Eisteddfod yn cyfateb i ostyngiad o 73% neu fwy mewn trosiant i'r Ŵyl.

Mae'r Gwersylloedd a'r Eisteddfod yn gyfrifol am £8.2M (~75%) o drosiant blynyddol yr Urdd, a'r misoedd rhwng Ebrill a Gorffennaf yw'r prysuraf a'r mwyaf proffidiol, sydd yn helpu cynnal y Mudiad drwy fisoedd y gaeaf pan mae ein trosiant yn sylweddol is. Wrth fethu cynnal gweithgareddau preswyl, cymunedol a chyhoeddus, mae'r Urdd yn colli cyfartaledd o bron £1miliwn o incwm y mis rhwng Ebrill a Mehefin 2020.

O 9fed o Fawrth 2020 ymlaen dechreuodd ysgolion a grwpiau i ohirio neu ganslo eu cyfnodau preswyl yng ngwersylloedd yr Urdd.

Ar 16eg o Fawrth 2020 cyhoeddwyd:

- Cae gwersylloedd preswyl yr Urdd (yn effeithiol o 20fed o Fawrth);
- Canslo holl Eisteddfodau lleol a rhanbarthol. Yn arferol cynhelir 200 o ddigwyddiadau celfyddydol gyda 45,000+ o blant a phobl ifanc yn cyfrannu yn y Gymraeg
- Gohirio Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd (un o wyliau celfyddydol mwyaf Cymru) yn Sir Dinbych tan 2021,
- Canslo pob cystadleuaeth Chwaraeon Genedlaethol

Effaith ar Staffio

- Mae 250 aelod o staff o weithlu 320 ar y cynllun Furlough, nifer ohonynt yn gynnwys staff arbenigol sgiliau uwch ym maes awyr agored.
- Mae'r holl staff gwaith Ieuenctid ar Furlough, er derbynnir grantiau Awdurdodau Lleol a Llywodraeth Cymru, nid yw yn cyfrannu 100% at y gwasanaeth. Mae'r Urdd trwy ei allu i greu incwm yn subsideiddio darpariaeth Gwaith Ieueuctid yn y Gymraeg i sicrhau bod darpariaeth cyson ac o ansawdd ymhob awdurdod lleol yng Nghymru.

Yn y gymuned rydym wedi:-

- Stopio pob clwb, adran ac aelwyd yr Urdd a darpariaeth gymunedol i 56,792 o aelodau ar draws Cymru lle mae plant a phobl ifanc yn defnyddio a chynyddu hyder yn eu defnydd o'r Gymraeg tu allan i'r ysgol
- Caewyd dros 250 o glybiau chwaraeon wythnosol ar draws Cymru lle mae 10,000 o blant a phobol ifanc yn colli allan ar glybiau chwaraeon wythnosol yr adran dros y cyfnod 'Lockdown'
- Mae dros 100 o wirfoddolwyr ifanc wedi yn colli'r cyfle i ymuno ar raglen datblygu hyfforddwyr ac arweinyddion ifanc.

**Pa mor effeithiol y mae'r gefnogaeth a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru, Llywodraeth DU a chyrff hyd braich wedi mynd i'r afael ag anghenion y sector?**

Rydym yn ddiolchgar iawn am y gefnogaeth a darparwyd gan swyddogion Llywodraeth Cymru a Chwaraeon Cymru. Maent yn deall ein sefyllfa, ac yn sensitif i'n gallu i ymateb oherwydd ein canran uchel o staff sydd ar y cynllun Furlough.

Medrwn ddweud hefyd, bod yr uchod yn wir am yr Awdurdodau Lleol sydd yn darparu cefnogaeth ariannol i'r Urdd.

Mae'r cynllun Furlough wedi bod o gymorth mawr i sefyllfa ariannol yr Urdd. Rydym yn blaen cynllunio am y cyfnod wedi i Furloughi orffen a'r golled enfawr trwy ein ffynonellau creu incwm. Bydd yn her enfawr i'w mudiad.

Mae swyddogion Llywodraeth Cymru wedi ein harwain at grantiau addas ac rydym wedi cyflwyno ceisiadau ac yn aros am y penderfyniadau.

Hoffem hefyd nodi nad yw'r nifer o'r ffynonellau ariannol addas i sefydliad maint yr Urdd oherwydd maint y gweithlu a'r trosiant.

Rydym yn derbyn diweddariadau dyddiol gan Lywodraeth Cymru

**Beth fydd effeithiau hir dymor tebygol COVID-19 ar y sector, a pha gefnogaeth sydd ei angen i ymdrin â'r rheini?**

Rydym wedi nodi uchod yr effaith ariannol ar yr Urdd a rhagwelir bydd angen 3-5 mlynedd o adfer i ddychwelyd ar lefelau darpariaeth ac incwm cyn COVID-19.

Yn yr hirdymor, rydym yn bryderus am yr effaith ar ddefnydd a hyder pobl ifanc i ddefnyddio'r Gymraeg gyda'u cyfoedion.

Mae darpariaeth gymunedol, chwaraeon, preswyl a chelfyddydol yn cynorthwyo 56,762 o blant a phobl ifanc i ddatblygu perthynas cadarnhaol, hwyliog a pleserus at y Gymraeg.

Fe fydd yn heriol i ddarparu yr un lefel o ddarpariaeth yn sgil COVID-19.

Hoffem dderbyn arweiniad wrth Lywodraeth Cymru slacio'r cyfyngiadau teithio. Mae'r gallu i unigolion a grwpiau i deithio tu hwnt i'w ardal lleol yn allweddol i barhad darpariaeth a chyfleoedd gwersylloedd, Chwaraeon a'r Eisteddfod

**Pa wersi gellir eu dysgu a'r ffordd mae Llywodraeth Cymru, Llywodraeth y DU, cyrff hyd-braich a'r sector wrth ymdrin â COVID-19**

Mae'r argyfwng presennol wedi profi pa mor fregus yw cyllido darpariaeth pobl ifanc cyfrwng Cymraeg, i sicrhau bod y ddarpariaeth yn gyson, o safon ym mhob rhan o Gymru. **Hoffem i Lywodraeth Cymru edrych ar fodel cyllido cenedlaethol ar gyfer gwaith ieuenctid yng Nghymru,**

Rydym yn derbyn cefnogaeth ariannol trwy'r Grant Hybu a Hyrwyddo'r Defnydd y Gymraeg a Rhaglen Grantiau Cyrff Ieuenctid Gwirfoddol Cenedlaethol ar gyfer ein darpariaeth ieuenctid yn y Gymraeg ynghyd a chyfraniadau o'r Awdurdodau lleol.

Nid yw'r cyllid a derbynnir yn ddigonol i gyflogi'n llawn amser swyddog datblygu a swyddog ieuenctid cyfrwng Cymraeg ym mhob awdurdod lleol,

Credwn dylai cyrff fel yr Urdd cael eu cynnwys yn y trafodaethau addysg Llywodraeth Cymru wrth iddynt gynllunio ail agor ysgolion.

Er yn gorff 3ydd sector, cyfrannwn at gynnydd defnydd y Gymraeg plant a phobl ifanc a'u datblygiad personol a chymdeithasol.

Medrwn o fis Medi 2020 ymlaen cefnogi plant a phobl ifanc o fewn yr ysgolion trwy ein darpariaeth gelfyddydol, ieuenctid, gweithgareddau awyr agored a chwaraeon e.e. cydweithio gydag adrannau addysg/ ysgolion i gynnig sesiynau 'Physical Literacy ' neu chwaraeon penodol yn yr ysgolion

**Sut mae modd i'r sector esblygu ar ôl COVID-19, a sut y gall Llywodraeth Cymry gefnogi arloesedd o'r fath i ymdrin â'r heriau yn y dyfodol**

Mae'r Urdd wedi addasu a dysgu llawer yn sgil COVID-19 trwy arloesi a chreu o'r newydd. E.e. Eisteddfod T, Neges Heddwch ac Ewyllys da, Deunydd ar lein.

Mae'r ansicrwydd yn sgil COVID-19 yn ei wneud yn anodd iawn i flaen cynllunio at y normal newydd.

Cydnabyddwn byddai heriau ariannol a chymdeithasol yn sgil COVID-19, bydd y flaenoriaeth yn y cyfnod nesaf ar wasanaethau cymunedol yr Urdd i gynyddu ein cynnig i blant a phobl ifanc o ardaloedd difreintiedig.

Wrth agosáu at ein canmlwyddiant yn 2022, mae gennym nifer o gynlluniau cyffrous ac arloesol. Rydym yn dal yn gobeithio medrwn wireddu y rhain (falle ar raddfa llai)'

Bydd gweithlu yr Urdd yn wahanol yn sgil COVID-19, rhagwelwn y bydd yn llai ac yn fwy ddibynnol ar gefnogaeth Llywodraeth Cymru nac yn y gorffennol.

Hoffem weld mwy o drafodaethau am fodelau ariannol cenedlaethol ar gyfer Gwaith Ieuenctid, ni fydd gan yr Urdd capasiti i drafod yn unigol gyda 22 Awdurdod Lleol.

Credwn fod angen gwella cydnabyddiaeth am ddarpariaeth yr Urdd ar y celfyddydau yn y Gymraeg i Gymru a chyd edrych ar fframwaith cenedlaethol ar gyfer celfyddydau cymunedol yn y Gymraeg i blant a phobl ifanc.

Dyma rhai esiamplau ar sut mae'r argyfwng COVID-19 wedi ein harwain i addasu ac arbrofi.

**Eisteddfod T** - Ail fodelwyd yr Eisteddfod i mewn ymateb i COVID-19. Dyma rai ffeithiau.

Nifer yn cystadlu – dros 7,000

Oriau darlledu – 27 awr ( heb gynnwys ail ddarlledu)

Roedd yn Eisteddfod arloesol yn cyfuno'r cystadlaethau traddodiadau ag rhai mwy amgen. Ehangwyd i gynnwys aelodau'r teulu ac anifeiliaid anwes !!. Diolch arbennig i'n partneriaid darlledu S4C a Radio Cymru

**Neges Heddwch ac Ewyllys Da**

Crëwyd neges newydd mewn ymateb y COVID-19. Lluniwyd y Neges gan bobl ifanc o gyffiniau Caerdydd

- Cyrhaeddiad cyfryngau cymdeithasol 14 miliwn
- Cyfanswm Cyrhaeddiad y Neges – 35 miliwn
- Cyrhaeddiad Cyfryngau 25 miliwn
- **9** miliwn ar Drydar #heddwch2020
- **5** miliwn ar Instagram
- **100,000** ar Facebook Urdd o'r fideo
- Cyrhaeddiad o **25** miliwn trwy'r canlynol: The Guardian, BBC Wales, BBC Radio Wales, BBC Radio Cymru, Newyddion, Heno, Gurnsey Evening Press, News Junior
- Darlledwyd y neges yn ei chyfanrwydd ar S4C

**Darpariaeth gymunedol / ar lein**

Crëwyd deunydd ar lein ar gyfer ein haelodau a gwelir y rhain ar wefan yr Urdd dan y faner CRIW – rhai wedi teilwro at oedrannau penodol ac at feysydd diddordeb penodol e.e. Chwaraeon, Iechyd Meddwl, Celf ayb https://www.urdd.cymru/cy/ieuenctid/criw/

Mae'r adnoddau yma wedi eu categorïau yn ôl oedran, cynradd, 11-13 oed a 14+oed Rhennir hefyd i feysydd o ddiddordeb sydd yn cynnwys:- Heriau, Dysgu Cymraeg, Celf, Meddwlgarwch, Flogs, Chwaraeon ac #Actifadref, amser stori, coginio, lliwio posau a dolenni i adnoddau gan gyrff eraill. Mae'r wybodaeth ar lein yn cynnwys dolen i MEIC, llinell gymorth Cymru gyfan i blant a phobl ifanc. Yn ychwanegol rhoddwyd dolen i wefan newyddion pobl ifanc fel eu bod yn medru derbyn y newyddion diweddara am COVID-19

**Ymgyrch Llamau**

Cydlynwyd Diwrnod Coch Gwyn a Gwyrdd ddechrau mis Mai i ddangos cefnogaeth i un o brif bartneriaid yr Urdd sef yr elusen ddigartrefedd i bobl ifanc Cymru - Llamau. Cafwyd ymgyrch wythnos gyfan ar Heno – S4C ynghyd ac ar ein cyfryngau cymdeithasol a sêr Chwaraeon a Celfyddydol Cymru i godi ymwybyddiaeth ac ar y dydd Gwener 1af Fai (dros gyfnod o 10 awr) cafwyd cefnogaeth cannoedd o blant, pobl ifanc ac oedolion ar hyd a lled Cymru i droi Cymru yn goch, gwyn a gwryd a chodwyd dros £13,000k i elusen Llamau.